hamddenamoes leisureforlife

# Astudiaeth Achos

## Annog plant i wneud rhagor o ymarfer corff - Cwrs Carlam o Wersi Nofio

Mae cyrsiau carlam o wersi nofio yn cael eu cynnal yn ein 8 pwll nofio yn ystod pob gwyliau ysgol (heblaw am wyliau'r Nadolig). Mae plant rhwng 7 ac 11 oed yn cymryd rhan mewn gwers hanner awr o hyd bob dydd am wythnos. Yn 2022, yn dilyn pandemig y Coronafeirws, roedden ni'n awyddus i ddarparu rhagor o gyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gwersi nofio gan fod cymaint wedi'u colli yn ystod y cyfnod clo. Mae galw mawr am wersi nofio, felly mae darparu cyrsiau carlam yn ystod gwyliau'r ysgol yn gyfle arall i blant gael ymarfer nofio a datblygu eu sgiliau nofio y tu allan i'r rhaglen Gwersi Nofio i Blant.

Mae'r cyrsiau carlam yma ar gael i'r cyhoedd ond mae rhai o'r sesiynau ar gyfer plant sydd ddim yn gallu nofio, neu blant sy'n nofwyr gwan, sy'n dod i'r amlwg yn ystod gwersi nofio ysgolion. Mae data yn dangos bod tua 40% o blant yn gadael yr ysgol gynradd heb allu nofio 25 metr. Rydyn ni eisiau newid yr ystadegyn yma, felly rydyn ni'n mynd ati i roi tocynnau aur i blant sydd ddim yn gallu nofio/sy'n nofwyr gwan yn ystod eu gwersi nofio gyda'r ysgol er mwyn i'w rhieni/gwarcheidwaid eu defnyddio i gadw lle ar gwrs carlam.

Yn ystod hanner tymor yr Hydref y llynedd, cwblhaodd 113 o blant wersi'r cwrs carlam, ac roedd mwy na thraean o'r rhain wedi trefnu'r gwersi gan ddefnyddio tocyn aur. Ym mis Chwefror, cwblhaodd 151 o blant y cwrs ac roedd bron i hanner ohonyn nhw yno o ganlyniad i atgyfeiriadau nofio ysgolion.

Mae nifer o rieni wedi rhoi gwybod bod mynychu cwrs carlam wedi arwain at gynnydd yn hyder eu plant. Mae plant wedi mwynhau'r gwersi a chael gweithio ar eu liwt eu hunain. Mae rhai wedi magu hyder ac mae eraill wedi gweithio at dderbyn bathodynnau nofio.

> "Mae fy mhlentyn i'n llawn cymhelliant i fynychu gwersi nofio ac mae cymryd rhan yn y cwrs carlam wedi gwella ei hyder."

> "Mae fy mhlentyn bellach yn fwy hyderus yn y pwll - rydyn ni'n bwriadu trefnu lle iddi ar y Gwersi Nofio i Blant er mwyn iddi barhau i wneud cynnydd."

**8** pwll nofio

**100%** yn teimlo'n fwy hyderus

**264** o bobl wedi cymryd rhan

**100%** yn teimlo bod gyda nhw fwy o gymhelliant i nofio

**100%** wedi mwynhau mynychu'r gwersi

**100%** yn awyddus i gymryd rhan eto yn y dyfodol

RHONDDA CYNON TAF